OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1673 (Cy.158)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credyd Treth Gwaith) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*1 Gorffennaf 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*3 Gorffennaf 2009*
Yn dod i rym - -	*3 Awst 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 512ZB(4)(a)(iv) a 568 o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credyd Treth Gwaith) (Cymru) 2009. Daw i rym ar 3 Awst 2009 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "Credyd Treth Gwaith" yr un ystyr â "Working Tax Credit" yn Neddf 2002; ac

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Credydau Treth 2002(**2**).

Credyd treth rhagnodedig

2. Mae Credyd Treth Gwaith wedi'i ragnodi at ddibenion adran 512ZB(4)(a)(iv) o Ddeddf Addysg 1996 o dan amgylchiadau pan fo rhiant sydd â hawl i'w gael yn cael ei drin fel un sy'n gwneud gwaith cymwys sy'n talu (o fewn ystyr Deddf 2002) yn rhinwedd rheoliad 7D o Reoliadau Credyd Treth Gwaith (Yr Hawl i'w Gael a'r Gyfradd Uchaf) 2002(**3**).

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 512ZB gan adran 201 o Ddeddf Addysg 2002. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 512ZB (*gweler* y diffiniad o "prescribed" yn adran 512 o Ddeddf 1996) ac adran 568 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 211 o Ddeddf Addysg 2002 a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) yn ôl eu trefn. Trosglwyddwyd y swyddogaethau wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) 2002 p.21.

(**3**) O.S. 2002/2005 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Credyd Treth Gwaith (Yr Hawl i'w Gael a'r Gyfradd Uchaf) (Diwygio) 2007/968.